

Amgueddfa Cymru

eich amgueddfeydd
cenedlaethol chi

➤ cyfraniad cadarnhaol i fywyd y
genedl yng nghanol dirwasgiad

national
museum
wales
amgueddfa
cymru



Cyhoeddwyd yn 2009 gan Amgueddfa Cymru
Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NP, Cymru

© Amgueddfa Genedlaethol Cymru

Golygydd: Heledd Fychan
Cynhyrchu: Mari Gordon
Dylunio: Mopublications
Testun Cymraeg: Testun, Geraint MacDonald
Argraffu: mwl


Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, ei storio mewn system adfer na'i drosglwyddo ar unrhyw ffurf na thrwy unrhyw ddull, boed yn drydanol, yn fecanyddol neu fel arall, heb gael caniatâd ysgrifenedig Amgueddfa Cymru, neu berchennog/ perchnogion yr hawlfraint ymlaen llaw, neu fel y mae'r gyfraith yn ei ganiatáu'n benodol. Dylid anfon ymholiadau ynghylch atgynhyrchu y tu hwnt i gwmpas yr uchod i'r Adran Gyhoeddiadau, Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Caerdydd, CF10 3NP.

Mae'r ddogfen hon ar gael ar ein gwefan, www.amgueddfacymru.ac.uk

Argraffwyd y ddogfen hon ar bapur o ffynhonnell wedi'i rheoli'n dda gan ddefnyddio inciau o lysiau. Mae'r papur a'r broses gynhyrchu wedi'u hardystio yn unol â safonau'r FSC. Mae'r argraffyddion hefyd yn achrededig hyd at ISO 14001, sef y safon ryngwladol gydnybodedig.



> Cynnwys



- 04 Eich amgueddfeydd cenedlaethol chi
- 05 Mwy nag adeiladau
- 10 Arddangosfeydd a digwyddiadau
- 22 Profiad heb ei ail
- 28 Cymru a'r byd

> Hyrwyddo Cymru

Mae'n wyth mlynedd bellach ers i Lywodraeth y Cynulliad ymrwymo i gynnig mynediad am ddim i'n hamgueddfeydd cenedlaethol ni. Rydym yn awyddus i atgoffa pobl o hyn, yn enwedig pan fo prisiau mynediad yn dueddol o wahaniaethu yn erbyn pobl sydd wedi'u heffeithio waethaf gan y cyni ariannol. Fel y gwelwch yn y papur hwn, mae Amgueddfa Cymru'n fwy na chasgliad o adeiladau a gwrthrychau yn unig. Rydym yn cynnig pethau a llefydd difyr a fforddiadwy y gall pobl eu mwynhau, ar eu liwt eu hunain neu gyda ffrindiau a pherthnasau, sy'n codi'u hysbryd ac sy'n gallu gwneud byd o les i'w hansawdd bywyd. Trwy gynnig llefydd gwerth chweil i fyfrio, rydym hefyd yn rhoi cyfle iddynt ehangu'r meddwl a mynegi'u hunain yn greadigol.

Cewch gyfle i gyfrannu at ein hamgueddfeydd yn ogystal ag ymweld â nhw am ddim. Mae nifer o gyfleoedd gwirfoddoli ar gael ledled y sefydliad, o brofiad gwaith a lleoliadau gwaith i wirfoddoli a phrentisiaethau, gan gynnig cyfleoedd gwyb pan fo cymaint o ddrysau eraill yn cau.

Mae Amgueddfa Cymru hefyd yn teimlo cyfrifoldeb i hyrwyddo Cymru y tu hwnt i Glawdd Offa. Rydym yn genedl llawn hanes a thraddodiadau cyfoethog sydd o ddiddordeb i'r byd. Trwy gymryd rhan mewn projectau fel Gŵyl Bywyd Gwerin Smithsonian a mynd â'n casgliad o waith yr Argraffiadwyr ar daith 18 mis i'r Unol Daleithiau, rydym yn gobeithio helpu i roi Cymru ar lwyfan rhwngwladol. Ein nod yw denu mwy o ymwelwyr i Gymru i weld yr hyn sydd gennym i'w gynnig gyda'u llygaid eu hunain.

Mae'r dirwasgiad wedi gwneud y cyfnod hwn yn un anodd i bawb yn ariannol. Nid yw Amgueddfa Cymru yn eithriad, ond rydym mor benderfynol ag erioed o wneud cyfraniad gwerthfawr i fywyd ein cenedl.

Mae pethau'n anodd ar y naw, ond gyda'ch cymorth chi bydd Amgueddfa Cymru'n gwireddu'r freuddwyd o fod yn amgueddfa ddysg o safon ryngwladol. Dyma'ch amgueddfeydd cenedlaethol chi, felly da chi, dewch i ymweld ac ymuno â ni a chymryd rhan. Edrychwn ymlaen at eich croesawu'n fuan.

Michael Houlihan, Cyfarwyddwr Cyffredinol



➤ Eich amgueddfeydd cenedlaethol chi

big pit
national
coal
amgueddfa
lleol
cymru

national
slate
amgueddfa
lechi
cymru

national
amgueddfa
museum
cardiff
cenedlaethol
caerdydd

national
roman legion
amgueddfa
lleng rufeinig
cymru

national
wool
amgueddfa
wlan
cymru

st fagans
national
sain fagan
amgueddfa
worin
cymru



Amgueddfa
Genedlaethol
y Glannau
National
Waterfront
Museum

Mae Amgueddfa Cymru yn cynnwys saith amgueddfa sydd wedi'u lleoli ledled Cymru. Mae pob amgueddfa'n archwilio gwahanol agweddau ar ein hanes mewn ffordd unigryw a byw, tra'n rhannu gwerthoedd rhagoriaeth a dysgu Amgueddfa Cymru.

Mae mynediad am ddim i'n holl amgueddfeydd

Rydym yn cadw rhan o'n casgliadau diwydiannol, fel cychod, ceir, rholwyr stêm a cherbydau mawr eraill, yn ein Canolfan Gasgliadau yn Nantgarw. Mae eitemau llai fel modelau llongau a darluniau'n cael eu storio'n ddiogel yma hefyd.

Am fwy o wybodaeth, ewch i www.amgueddfacymru.ac.uk

➤ Mwy nag adeiladau

Mae mwy i Amgueddfa Cymru na chyfle i ymweld ag un o'n saith amgueddfa yn unig. Mae ein curaduron yn cydweithio ag amgueddfeydd a chanolfannau ledled Cymru i wella adnoddau lleol a rhoi cyfle i gynulleidfaoedd lleol weld y casgliadau cenedlaethol. Fel eich amgueddfeydd cenedlaethol chi, rydym yn ymrwymo i wneud y cyfraniad gorau posibl i fywyd y genedl.



Amcangyfrifir bod cyfanswm dylanwad economaidd Amgueddfa Cymru yn **£83 miliwn** mewn cynnyrch a **£53 miliwn** mewn gwerth ychwanegol gros – mae hyn yn gysylltiedig â dros **2,000** o swyddi llawn amser

O astudiaeth annibynnol gan Uned Ymchwil Economaidd Cymru yn Ysgol Fusnes Prifysgol Caerdydd

Adeiladu cyfleoedd

➤ Mae Sain Ffagan yn enwog am ailadeiladu a gwarchod adeiladau hanesyddol. Ac, er yn llai amlwg efallai, mae hefyd yn golygu diogelu’r crefftau a sgiliau traddodiadol sy’n cael eu defnyddio i godi’r adeiladau hyn. Erbyn heddiw, yn ogystal â diogelu’r sgiliau hyn, mae Sain Ffagan yn allweddol wrth hyfforddi pobl a throsglwyddo’r sgiliau hyn ymlaen. Mae dau brentis – saer maen a saer coed – wedi bod yn cydweithio â chrefftwyr yn yr Uned Adeiladau Hanesyddol yn Sain Ffagan ers mis Medi 2008 fel rhan o’u cyrsiau addysg ffurfiol.

Yn ogystal â’n cynllun prentisiaeth ein hunain, mae Sain Ffagan yn cynnig lleoliadau gwaith i’r Grŵp Hyfforddi Treftadaeth Genedlaethol, cynllun bwrsari newydd wedi’i noddi gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, English Heritage, Cadw ac eraill. Mae’r cynllun hwn yn rhoi nawdd ariannol i helpu crefftwyr proffesiynol i gael profiad o ddefnyddio technegau a deunyddiau traddodiadol. Mae Sain Ffagan eisoes wedi cynnal pump (o blith 75 o leoliadau posibl yn y DU) lleoliad: mae dau beintiwr eisoes wedi cwblhau eu hyfforddiant, mae un arall wrthi’n astudio gwaith peintio ac addurno traddodiadol ac mae dau brentis arall yn astudio gwaith saer traddodiadol. Ar adeg pan fo cymaint o ddrysau a chyfleoedd yn cau, mae Amgueddfa Cymru yn awyddus i ddod o hyd i arian er mwyn ehangu’r cynllun hwn.

Cynaliadwyedd

➤ Mae Amgueddfa Cymru wedi gwneud ymrwymiad gwirioneddol i gynaliadwyedd. Rydym yn dal i roi cryn sylw i’r mater hwn er gwaetha’r dirwasgiad, trwy gyfrwng mentrau Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a thrwy ddatblygu amgueddfeydd cynaliadwy. Er gwaetha’r ffaith bod gennym gymaint o adeiladau hanesyddol a rhestredig, rydym yn chwilio am ffyrdd arloesol i leihau ein hól troed carbon.

Rydym eisoes yn elwa ar bartneriaeth wych gyda’rYmddiriedolaeth Garbon sydd wedi cynnal adolygiad ynni o’n holl safleoedd. Fe wnaethom baratoi cynllun gweithredu yn sgil hyn, a llwyddo i gael £250,000 gan Lywodraeth y Cynulliad i’n helpu i ddefnyddio llai o nwy, trydan a dŵr, ac felly lleihau ein hól troed carbon. Rydym bellach wedi llwyddo i ennill dyfarniad lefel 3 y Ddraig Werdd ym mhob un o’n hamgueddfeydd. Gallwn ddefnyddio’r cynllun hwn i brofi ein bod yn gweithio mewn ffordd gynaliadwy a’n bod yn ceisio defnyddio llai o ynni a lleihau gwastraff ym mhob cam o’n gwaith.

Hefyd, rydym yn ceisio rhannu’r neges. Mae ein harddangosfa deithiol *Beth sy’n digwydd?* yn trafod effeithiau newid yn yr hinsawdd a beth all cymunedau lleol ei wneud i leihau eu heffaith ar yr amgylchedd. Bydd yr arddangosfa hon yn ymweld â’n hamgueddfeydd yng Nghaerdydd, Abertawe, Big Pit a Llanberis, yn ogystal â chanolfannau eraill ym Machynlleth, Aberhonddu, Pen-y-bont ar Ogwr, Llandeilo, Penfro, Coed-duon, Caerfyrddin a Chonwy yn ystod 2009.

Defnyddiodd **99,000** o bobl y Casgliad Allestyn rhwng Ebrill 2008 a Mawrth 2009



Rhannu ein casgliadau

➤ Mae Casgliad Allestyn Amgueddfa Cymru – y gwasanaeth benthyca amgueddfaol cyntaf o’i fath yn y byd – yn 60 oed eleni. Mae’r Casgliad Allestyn, sef y Gwasanaeth Benthyca iYsgolion gynt, yn benthyca gwrthrychau i bob math o grwpiau, yn enwedig pobl ifanc, gyda’r nod o sbarduno creadigrwydd, atgofion a dysgu. Mae’r gwasanaeth yn dal i ddatblygu, gyda gwrthrychau’n cael eu benthyca i grwpiau cymuned, cwmnïau ffilm a theledu, grwpiau diddordeb arbennig a sefydliadau yn cynnwys carchar hyd yn oed.

Roedd ein partneriaeth â Charchar a Chanolfan Troseddwyr Ifanc E.M. y Parc yn profi bod modd i rai na allant ymweld ag amgueddfa fwynhau trysorau’r genedl yr un fath. Gan ddefnyddio ein casgliadau celf a hanes natur fel ysbrydoliaeth, aeth y carcharorion ati i greu eu gweithiau celf eu hunain ar gyfer eu harholiadau, gan gynnwys OCN,TGAU a safon UG. Cafodd ffrwyth eu llafur ei arddangos ym Mhrif Neuadd Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd dros fisoedd yr haf.



Croesawyd y cyfle hwn gan y carchar. ‘Mae’r gwrthrychau a fenthycwyd gan yr Amgueddfa wedi helpu’r rheiny a gymerodd ran i fod yn fwy creadigol a’u hysbrydoli i edrych ar amrywiaeth fwy eang o wrthrychau i’w hysgogi,’ dywedodd Laurence Bater, Rheolwr Cwricwlwm Celfyddydau Creadigol y Carchar. Ychwanegodd, ‘Gall llwyddiant bach gan garcharor gael effaith sylweddol. Gall rhywbeth rydyn ni’n ei gymryd yn ganiataol wneud gwahaniaeth mawr.’



'Arddangosfa ardderchog o waith Graham Sutherland. Da iawn. Teyrnged wych i Sir Benfro'

Sylw gan un o ymwelwyr Oriel y Parc



Darganfyddiadau mawr a mân

➤ Nid gwarchod gwrthrychau yn unig yw prif ddiddordeb Amgueddfa Cymru – rydym hefyd yn cyfrannu'n helaeth at waith ymchwil mewn meysydd gwahanol. Mae gwyddonwyr Amgueddfa Cymru wedi hawlio'r penawdau yn 2009 ar ôl darganfod 14 math newydd o goed – a gwlithen go anarferol.

Mae ein botanegwyr wedi llwyddo i enwi 14 math newydd o goed prin yng Nghymru, lwerddon a Lloegr sydd angen eu gwarchod, ar y cyd â gwyddonwyr o Brifysgolion Bryste, Caerwysg a Rhydychen, a Gerddi Botaneg Brenhinol Kew. O'r 14 coeden newydd sydd wedi'u henwi'n swyddogol yn *Watsonia*, cyfnodolyn gwyddonol Cymdeithas Fotanegol Gwledydd Prydain, mae chwech ohonynt yn tyfu yma yng Nghymru.

Mae'n debyg bod rhai o'r coed wedi datblygu'n eithaf diweddar ac yn enghreifftiau o esblygiad parhaus, tra bod eraill yn hŷn ac yn hysbys inni ers peth amser, ond nid oedd modd eu disgrifio fel 'rhywogaethau' tan nawr, diolch i ddulliau DNA modern.

Mae sbesimenau'r coed hyn yn cael eu cadw yn Llysieufa Genedlaethol Cymru yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, ac mae tair o'r rhywogaeth Gymreig – Stirton's Whitebeam, Motley's Whitebeam a Welsh Whitebeam – yn tyfu yn yr Ardd Fotaneg Genedlaethol. Cafodd y project hwn ei arwain gan Amgueddfa Cymru, gyda cefnogaeth Sefydliad Leverhulme, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Natural England a'r Gerddi Botaneg Brenhinol, Kew.

Cafodd biolegwyr Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd a Phrifysgol Caerdydd eu syfrdanu'n llwyr pan ddangosodd aelod o'r cyhoedd wllithen go anghyffredin iddynt. Mae'r wllithen hon wedi'i gweld yng ngerddi de Cymru, er bod ei pherthnasau'n hanu o Dwrci a Georgia bell.

Pan sylweddolodd gwyddonwyr ei bod yn rhywogaeth newydd sbon, heb ei disgrifio o'r blaen ac felly heb enw gwyddonol, penderfynwyd ei bedyddio'n *Selenochlamys ysbryda* – Ysbrydwlithen.



Mae'r Sefydliad Rhyngwladol ar gyfer Archwilio Rhywogaethau yn cyhoeddi rhestr flynyddol o'r 10 Rhywogaeth Newydd Gorau yn y Byd, ac roedd yr Ysbrydwlithen o Gymru ymhlith yr enwau ar restr 2008!



Oriel y Parc – oriel newydd unswydd ar gyfer yr amgylchedd

➤ Sefydlwyd Oriel y Parc, Tyddewi, yn sgil partneriaeth rhwng Amgueddfa Cymru a Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Mae'n gartref i luniau'r arlunydd Graham Sutherland a ysbrydolwyd gan dirwedd Sir Benfro sydd, yn eu tro, yn ysbrydoli rhaglen ehangach o weithgareddau ac arddangosfeydd. Dyma gyfuniad unigryw o ganolfan ymwelwyr â chyfleoedd newydd i ddysgu am y tir a'r môr o'n hamgylch.

Mae'r adeilad ei hun wedi ennill sawl gwobr 'rhagorol' gan BREEAM (Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu). Mae to glaswellt yn gorchuddio'r adain suddedig lle mae'r orielau, gan gynnig dull insiwleiddio a diogelwch sy'n lleihau'r defnydd o ynni. Defnyddiwyd coed o ffynonellau adnewyddadwy ar gyfer strwythur yr adeilad. Mae'r toiledau'n defnyddio dŵr glaw a gasglwyd o'r to.

Cynhaliwyd arddangosfa dan y thema 'y tirlun cudd' yn y flwyddyn gyntaf. Roedd y gwrthrychau'n amrywio o Drilobit Solfach i Gelc Tregwynt ochr yn ochr â gweithiau celf o'r ail ganrif ar bymtheg hyd heddiw. Ceir arddangosfa o stiwdio Sutherland ynghyd â darnau o'i waith a gwaith arlunwyr eraill yr oedd yn eu hadnabod a'u hedmygu. Bydd yr arddangosfa'n newid bob blwyddyn.

➤ Arddangosfeydd a digwyddiadau

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu atyniadau treftadaeth o'r radd flaenaf, sy'n llawn dop o weithgareddau i ymwelwyr o bob oed. Mae 1.5 miliwn a mwy o bobl yn ymweld â'n hamgueddfeydd bob blwyddyn – a hoffem groesawu hyd yn oed fwy o bobl! Rydym yn cynnig pethau a llefydd difyr a fforddiadwy y gall pobl eu mwynhau, ar eu liwt eu hunain neu gyda ffrindiau a pherthnasau, sy'n codi'u hysbryd ac sy'n gallu gwneud byd o les i'w hansawdd bywyd. Trwy gynnig llefydd gwerth chweil i fyfyrion, rydym hefyd yn rhoi cyfle iddynt ehangu'r meddwl a mynegi'u hunain yn greadigol.






Chwarter canrif o groeso yn Big Pit

➤ Ym mis Ebrill 2008, fe ddathlodd Big Pit 25 mlynedd fel un o atyniadau treftadaeth gorau Cymru. Ac i goroni'r cyfan, croesawodd Big Pit ymwelydd rhif 3,000,000 ym mis Mai 2009 – sef disgybl o Ysgol Gynradd Tŷ Newydd, Trecelyn.

Meddai Peter Walker, Ceidwad Big Pit a Rheolwr y Pwll: 'Pan agorodd Big Pit, doedd neb yn credu y byddai'r diwydiant hwn fwy neu lai'n diflannu mor gyflym, ac rydym yn falch o allu cadw straeon y glowyr a'u teuluoedd yn fyw. Rydym wedi bod trwy gyfnodau anodd, ond yn ystod y deng mlynedd diwethaf, rydym wedi gwario miliynau o bunnoedd ar ailddatblygu'r Amgueddfa, cawsom ein henwi fel hoff amgueddfa'r DU a chafodd y Baddonau Pen Pwll eu dewis fel hoff drysor cenedlaethol Cymru.'

Cafwyd cyfle i ddathlu'r chwarter canrif ar 5 a 6 Ebrill 2008 gyda phenwythnos o hwyl a sbri i'r gymuned gyfan. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys arddangosfeydd, sgysiau, cerddoriaeth fyw a hyd yn oed cystadleuaeth i greu caws pen-blwydd arbennig i Big Pit!

Lansiwyd cyfrol ddiweddaraf Llyfrau Amgueddfa Cymru, *Cyfaill neu gaethwas? Ceffylau'r pyllau glo*, ar yr un penwythnos hefyd. Mae'r llyfr yn ymateb i rai o gwestiynau cyffredin yr ymwelwyr, trwy fwrw golwg manwl ar fywyd, gwaith a marwolaeth yr anifeiliaid hynod hyn. Mae'n cynnwys atgofion byw gan lowyr sy'n cofio gweithio danddaear gyda cheffylau.




Meddai Ceri Thompson, Curadur Glo a chyn-löwr: 'Gallai'r colliers fod mewn cydymdeimlad â'r anifeiliaid, ond gallent hefyd droi llygad dall at greulondeb neu hyd yn oed fod yn greulon eu hunain...Bwyd cŵn fu'r gweithwyr pedair coes hyn yn y pen-draw – ond hebddyn nhw ni fyddai'r chwyldro diwydiannol wedi digwydd.'



'Mae Big Pit yn parhau i fod yn llwyddiant gan fod ymwelwyr yn cael cyfle i gwrdd â glowyr go iawn a chlywed hanesion o lygad y ffynnon am fywyd yn y cymoedd glofaol.'

Peter Walker, Ceidwad Big Pit



Cofio'r Cau

➤ Mae arddangosfa newydd yn Amgueddfa Lechi Cymru yn nodi deugain mlynedd ers cau chwarel Dinorwig ym 1969.
Mae Dinorwig '69 - cofio'r cau, a agorodd ar 1 Gorffennaf 2009, yn trafod cau'r chwarel a'i effaith ar bentref Llanberis a'r cylch. Collodd 350 o ddynion eu gwaith, ond yn fwy na hynny, collwyd cymuned a ffordd o fyw a oedd wedi bodoli ers y 1780au.

'Byddwn yn rhoi hanes y cau yn ei gyd-destun,' esboniodd Dr Dafydd Roberts, Ceidwad Amgueddfa Lechi Cymru. 'Nid dathlu ydyn ni, ond cnoi cil ar ddigwyddiad hanesyddol bwysig ac edrych yn fanylach ar effaith hynny ar y gymuned.'

Ganrif yn gynharach, fyddai neb wedi dychmygu y gallai'r fath beth ddigwydd. Roedd Dinorwig a chwarel gyfagos y Penrhyn, Bethesda, yn cynhyrchu mwy o lechi to mewn blwyddyn na holl chwareli llechi eraill y byd gyda'i gilydd. Cafodd y tawelwch rhyfedd a darodd Dinorwig ym mis Awst 1969 effaith enfawr a hirbarhaol ar yr ardal hon.'

Ar ei hanterth, roedd chwarel Dinorwig yn cynhyrchu **90,000** o dunelli o lechi to bob blwyddyn

Creu Duwies Indiaidd

➤ Cynhaliwyd project unigryw iawn yn Sain Ffagan rhwng mis Mawrth a mis Ebrill 2009, pan gafodd duwies Indiaidd ei chreu o flaen ein llygaid – a hynny mewn ychydig wythnosau.
Fel rhan o'r project 'Creu Durga', daeth dau artist Indiaidd o fri, Purnendu Dey a Dibyendu Dey, i Gymru i greu cerfluniau o Durga, duwies Hindwaidd, a'i theulu o dduwiau.
Treuliodd yr artistiaid dair wythnos yn Sain Ffagan yn creu cerflun addurnol gan ddechrau gyda ffrâm bren syml. Defnyddiwyd clai, gwellt, pren a *papier-mâche* i greu campwaith a oedd yn rhan bwysig o ddathliadau Hindwaidd yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Daeth **1,300** o bobl i gymryd rhan yn nigwyddiadau a gweithgareddau'r project

Cynhaliwyd pob math o ddigwyddiadau eraill fel rhan o'r project, o sgysiau a gweithdai i baratoi blog a thudalen Flickr, ac achlysur arbennig i ddathlu diwedd y project.
Cafodd y project ei gomisiynu a'i ariannu gan Amgueddfa Cymru, Cyngor y Celfyddydau, Pwyllgor Puja Cymru a Chymdeithas Adeiladu'r Principality.



Darwin a Chymru

➤ Mae’n 200 mlynedd ers geni Charles Darwin eleni, ac mae Amgueddfa Cymru yn rhan o’r dathliadau rhyngwladol.

Mae *Darwin: newid byd*, menter ar y cyd â’r Brifysgol Agored yng Nghymru, yn archwilio bywyd, mordeithiau a darganfyddiadau rhyfeddol ‘tad bioleg’. Mae’n dangos y rhywogaethau anifeiliaid a phlanhigion a welodd Darwin wrth deithio’r byd, ynghyd â’r datblygiadau modern fel DNA ac etifeddiaeth genynnol sy’n cefnogi damcaniaeth Darwin.

Mae’r arddangosfa hefyd yn trafod cyfnod Darwin yng Nghymru, lle dysgodd am lawer o elfennau sylfaenol daeareg am y tro cyntaf. Treuliodd gryn dipyn o amser yn astudio hanes natur gogledd Cymru.

Ym 1831, fe ymwelodd â’r gogledd gyda’r Athro Adam Sedgwick, un o ddaearegwyr mwyaf blaenllaw’r cyfnod. Roedd yr hyn a ddysgodd gan yr Athro yn amhrisiadwy iddo wrth deithio o amgylch y byd ar y Beagle maes o law.

Llythyr gan wyddonydd ifanc o Sir Fynwy, Alfred Russell Wallace, a sbardunodd Darwin i gyhoeddi *On the Origins of Species*

Traed mewn Cyffion

➤ I nodi 200 mlynedd ers i Senedd Prydan ddileu’r fasnach mewn caethweision, aeth Amgueddfa Genedlaethol y Glannau ati yn 2007 i ddatblygu project Traed mewn Cyffion, gan drafod cyfraniad Cymru at gaethwasiaeth a’r frwydr barhaus yn erbyn hynny.

Cam cynta’r project oedd creu arddangosfa yn yr Amgueddfa. Aeth yr arddangosfa ar daith wedyn, gan ddenu miloedd o bobl i amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifdai ledled Cymru. Roedd yr arddangosfa yn trin a thrafod rhan Cymru yn y fasnach mewn caethwasiaeth ar draws y Môr Iwerydd, a chafwyd rhaglen o ddarlithoedd, gweithdai a pherfformiadau i gyd-fynd â’r cyfan.

Fel ail gam y project, cynhaliwyd fforwm agored dan arweiniad y gymuned, gan gynnig cyfle i bobl o wahanol gefndiroedd diwylliannol fynegi barn am gaethiwed yr Affricanwyr, a thrafod sut mae hynny’n dal i effeithio arnom ni heddiw.

Cafwyd cyfraniad gan dros gant o bobl, o wledydd mor amrywiol â Nigeria, Uganda, Algeria, Ghana, Libanus, Moroco, Trinidad a Tobago, St Kitts a Nevis, Ffrainc, Rwsia, Iran, Irac, Afghanistan, Palestina, Cambodia, Cymru, Iwerddon a Lloegr, sydd bellach yn byw yng Nghaerdydd, Casnewydd neu Abertawe. Fe wnaeth y project feithrin partneriaeth â thros 30 o sefydliadau cymunedol gwahanol hefyd.



Cawsom gydweithrediad y Llyfrgell Genedlaethol, Prifysgol Bangor ac Archifdy Morgannwg ar yr arddangosfa hon. Noddwyd Project Cymunedol Traed mewn Cyffion gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri a chafwyd cefnogaeth llw o bobl a sefydliadau ledled Cymru a thu hwnt, gan gynnwys y Llyfrgell Genedlaethol, Prifysgol Bangor, Amgueddfa Abertawe ac Amgueddfa Casnewydd.



Gŵyl Archeoleg Prydain

➤ Roedd tair o'n hamgueddfeydd – Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru, Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru ac Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd – yn rhan o Wyl Archeoleg Prydain dros yr haf. Cynhaliwyd lluo o ddigwyddiadau i ddangos y gwaith archeoleg pwysig sy'n cael ei gynnal gan Amgueddfa Cymru, trwy ail-greu digwyddiadau a sgysiau yn esbonio sut mae hanesion o'r gorffennol yn dod i'r wyneb trwy waith cloddio. Cynhaliwyd angladd Rufeinig, roedd y Pentref Celtaidd yn llawn bwrlwm, a chafodd ymwelwyr gyfle i gwrdd â chymeriadau a oedd yn byw yn rhai o'n cymunedau ni 2,000 o flynyddoedd yn ôl!

Urdd Gobaith Cymru

➤ Fel rhan o ddathliadau Eisteddfod yr Urdd ym Mae Caerdydd eleni, trefnodd Amgueddfa Cymru gyfres o ddigwyddiadau a gweithgareddau ar y cyd â'r mudiad. Yn Oriel 1 Sain Ffagan, cynhaliwyd arddangosfa dros dro am hanes yr Urdd fel mudiad, a chafodd neges heddwch ac ewylllys da blynyddol yr Urdd – sydd ar gael mewn 36 o ieithoedd – ei darlledu o'r safle. Cynhaliwyd jamborî fawr flynyddol yr Urdd dros ddau ddiwrnod yn Sain Ffagan hefyd, yng nghwmni 4,000 o blant ysgol gynradd o bob cwr o Gymru.

Am ffasiwn le!

➤ Unwaith eto, daeth graddedigion ffasiwn a thecstilau Ysgol Celfyddydau Gorllewin Cymru i Amgueddfa Wlân Cymru ddiwedd Mehefin i gynnal eu sioe ffasiwn diwedd blwyddyn. Roedd y sioe'n gyfle i weld dros 72 o gynlluniau a gafodd eu hymchwilio, cynllunio a'u creu'n unigol gan y myfyrwyr ar gyfer y sioe, a'u harddangos gan fodolau proffesiynol.

Yn ôl Ann Whittall, Rheolwr Amgueddfa Wlân Cymru: 'Mae'n braf croesawu'r myfyrwyr unwaith eto. Mae'n addas ein bod yn cynnal sioe ffasiwn cyfoes mewn adeilad sydd â hen hanes o greu pethau ffasiynol.'

Cerdd 09

➤ Ddechrau 2009, lansiodd Amgueddfa Cymru raglen o ddigwyddiadau a gweithgareddau ar thema cerddoriaeth. Un elfen o'r project oedd Ymateb, lle bu artistiaid yn cydweithio â churaduron ein saith amgueddfa i gyfansoddi ymateb cerddorol i gasgliadau'r genedl. Mae rhai o ddoniau cerddorol newydd Cymru'n cyfrannu traciau gwreiddiol wedi'u hysbrydoli gan arddangosfeydd a gwrthrychau o bob math.

Mae Amgueddfa Cymru yn gobeithio mai dyma'r cyntaf o blith nifer o broiectau difyr a fydd yn ehangu apêl amgueddfeydd a'r casgliadau fel manau cymdeithasol.



Cyfansoddwyd **22** darn o gerddoriaeth ar gyfer y project Ymateb



Diane Arbus

➤ Gwaith Diane Arbus (1923-1971), ffotograffydd enwog o Efrog Newydd a weddnewidiodd crefft ffotograffiaeth, oedd un o brif arddangosfeydd celf Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn 2009.

Diane Arbus, sy'n cynnwys 69 llun du a gwyn, gan gynnwys portffolio prin a phwysig o ddeg o hen brintiau, *Blwch o ddeg*, 1971, yw un o'r casgliadau gorau o waith Arbus sydd ar gael. Mae ei ffotograffau pwerus, a dadleuol ar brydiau, yn dangos y pethau cyfarwydd fel rhai od braidd, ac yn gwneud i'r pethau rhyfedd neu egstotig edrych yn gyfarwydd. Cafodd detholiad sylweddol o'r lluniau eu cyflwyno mewn arddangosfa hynod boblogaidd.

Sisley yng Nghymru a Lloegr

➤ Cafodd ymwelwyr Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd wledd i'r llygaid gyda detholiad o dirluniau godidog Alfred Sisley yng ngwanwyn 2009. Trefnwyd yr arddangosfa – Sisley yng Nghymru a Lloegr – gan Amgueddfa Cymru a'r Oriel Genedlaethol, Llundain, gan ganolbwyntio ar y ddau gyfnod y treuliodd yr arlunydd yn peintio yn y DU – sef Lloegr ym 1874, a Chymru ym 1897. Roedd yr arddangosfa hon yn cyfuno ffrwyth llafur y ddau ymweliad hwn am y tro cyntaf erioed – dau gyfnod pan oedd Sisley ar ei fwyaf creadigol.

Roedd yr arddangosfa'n cynnwys yr unig forluniau o Gymru sydd wedi goroesi – o haul ola'r dydd ar ddyfroedd tawel Môr Hafren ym Mhenarth, i greigiau geirwon Bae Langland, yn enwedig Storr's Rock.



© 1971 Ystâd Diane Arbus

‘Mae ffotograff yn gyfrinach am gyfrinach. Mwyaf mae’n ei ddweud, lleiaf sy’n hysbys.’

Diane Arbus



➤ Profiad heb ei ail

Er bod pethau'n fain iawn arnom yn ystod yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, mae Amgueddfa Cymru yn parhau i edrych tua'r dyfodol. Bydd y datblygiadau sy'n mynd rhagddynt yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd ar hyn o bryd a'r cynlluniau cyffrous i ddatblygu Sain Ffagan yn gwella profiad ymwelwyr, heb os nac oni bai. Dyma fydd ein prif brojectau ar gyfer y blynyddoedd nesaf – ond bydd ein holl amgueddfeydd yn parhau i wella profiad ein hymwelwyr.

Cymru ar ei newydd wedd – amgueddfa gelf newydd i'r genedl

➤ Erbyn 2011, bydd llawr cyntaf Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd wedi'i drawsnewid yn llwyr i fod yn amgueddfa gelf genedlaethol newydd yn sgil buddsoddiad o £4.15 miliwn. Rydym eisoes wedi cwblhau rhai o elfennau'r project, a dechrau cyflwyno celf o Gymru mewn ffordd newydd a ffres, gan ystyried hunaniaeth ddiwylliannol Gymreig mewn cyd-destun rhyngwladol.

Amgueddfa gwyddorau naturiol newydd i Gymru

Yn 2010, byddwn yn dechrau ailwampio llawr gwaelod Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd er mwyn creu amgueddfa gwyddorau naturiol i Gymru. Bydd Oriel Ddarganfod Glanely, sy'n hynod lwyddiannus a phoblogaidd, yn cael ei hadnewyddu a'i gwella yn unol â disgwyliadau ymwelwyr hen a newydd. Ymgynghorwyd â nhw ar y newidiadau hyn.

Oriel genedlaethol newydd yw'r nod

Yr amgueddfa gelf newydd i Gymru a ddisgrifir uchod fydd cam cyntaf y cynllun tymor hir i sefydlu oriel gelf genedlaethol i Gymru. Mae llawer o drafod wedi bod dros y degawd diwethaf ynglŷn ag arddangos celf yng Nghymru. Comisiynwyd adroddiad ar y pwnc gan Lywodraeth y Cynulliad, ac fe'i cyhoeddwyd yn Rhagfyr 2008.

Mae'r adroddiad yn argymhell y dylid creu adain ogleddol newydd yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd i arddangos casgliadau'r gwyddorau naturiol. Bydd hyn yn rhyddhau gweddill yr adeilad gwreiddiol i'w ddefnyddio fel oriel gelf genedlaethol.

Mae'r adroddiad yn awgrymu y byddai project o'r fath yn cymryd 10-15 mlynedd a chyllido sylweddol i'w gwblhau. Mae'r amserlen hon yn sicrhau bod modd bwrw ymlaen â'r gwaith cychwynnol, a chwblhau datblygu Sain Ffagan (gweler trosodd), cyn cychwyn adeiladu'r adain ogleddol.



Sain Ffagan yn y dyfodol

➤ Bydd ein cynlluniau arloesol a chyffrous i drawsnewid Sain Ffagan yn amgueddfa hanes cenedlaethol yn sicrhau ein bod yn cofnodi holl hanes y genedl ar un safle am y tro cyntaf erioed. Rydym wedi hen arfer â thorri tir newydd yn Sain Ffagan. Hon oedd amgueddfa awyr agored gyntaf Prydain pan agorodd ym 1948, a’r amgueddfa genedlaethol gyntaf erioed wedi’i neilltuo i ddangos bywyd y werin bobl.

Fodd bynnag, mae dirfawr angen adnewyddu’r safle gwreiddiol erbyn hyn, a dyma fydd cam cyntaf y project gwerth £20 miliwn hwn. Bydd y project yn adeiladu ar nodweddion a chryfderau unigryw’r safle tra’n sicrhau bod ymwelwyr yn dal i gael blas ar atgofion a hanesion pobl a lleoedd Cymru o’r cyfnod cynnar hyd heddiw. Fel rhan o’r datblygiad, byddwn yn symud ein casgliadau archeolegol o Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd i ymuno â chasgliad bywyd gwerin Sain Ffagan.

Yn ogystal â bod yn ganolbwynt gwybodaeth a sgiliau traddodiadol o fewn rhwydwaith ehangach o safleoedd treftadaeth yng Nghymru, bydd Sain Ffagan yn datblygu’n borth a fydd yn cyfeirio ymwelwyr at atyniadau diwylliannol eraill. Bydd Sain Ffagan yn dangos i ymwelwyr o bedwar ban byd fod Cymru’n wlad hyderus, amrywiol a blaengar.

Yn ystod y blynyddoedd nesaf, byddwn yn ceisio sicrhau bod gennym ddigon o gefnogaeth ariannol i’n helpu i gyflawni’r project hwn ar ran pobl Cymru.

Sain Ffagan yw safle treftadaeth mwyaf poblogaidd Cymru, ac mae’n denu dros **600,000** o ymwelwyr bob blwyddyn.

Gardd Rufeinig

➤ Ym mis Medi 2008, cafodd gardd Rufeinig ei hagar yn swyddogol i’r cyhoedd yn Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru. Bellach, mae’r ymwelwyr yn gallu cael blas go iawn ar fywydau’r Rhufeiniaid a oedd yn byw yn Isca, neu Caerllion heddiw.

Diolch i dystiolaeth ac ymchwil archeolegol, mae’r ardd hon yn dangos ein bod yn dal i ddefnyddio technegau garddio a sefydlodd y Rhufeiniaid 2,000 o flynyddoedd yn ôl, o droi’r pridd yn yr hydref i gymysgu’r compost, i hofio gwelyau a hau hadau yn y gwanwyn. Eu *triclinum* nhw yw ein gasebo ni heddiw. Hefyd, y Rhufeiniaid gyflwynodd llawer o rywogaethau planhigion i’r DU, sydd mor gyfarwydd inni heddiw. Mae’r ardd yn cynnig cefndir newydd a chyffrous i’r llu o weithgareddau sydd eisoes ar gael i bobl o bob oed yn yr Amgueddfa.

Archwilio ein Coedwigoedd

➤ Cafodd project newydd i archwilio a mwynhau coedwigoedd Sain Ffagan ei lansio yn ystod gwanwyn 2008. Nod project Archwilio ein Coedwigoedd yw annog pobl i ymgysylltu â’r amgylchedd yn well trwy ddefnyddio coedwigoedd eang Sain Ffagan. Mae’r project yn cynnwys gweithdai, gweithgareddau, llwybr natur a gwefan arbennig lle gallwch wyllo ein ‘gwylltgamerâu’.

Erbyn hyn, mae ymwelwyr yn gallu mynd am dro ar hyd llwybr natur arbennig, naill ai trwy ymuno â digwyddiadau wedi’u trefnu’n arbennig neu trwy ddefnyddio’r llwybr newydd penodol trwy’r goedwig. Mae digonedd o ganllawiau a gweithgareddau i helpu ymwelwyr i adnabod creaduriaid a phlanhigion y goedwig, o’r cyffredin i’r anghyffredin.

Noddir project Archwilio ein Coedwigoedd gan Legal & General a Chyngor Dinas Caerdydd trwy’r Landfill Communities Trust.



Cymerodd **8,541** o ymwelwyr ran yn ein gweithgareddau Archwilio ein Coedwigoedd rhwng Medi 08 a Medi 09

> Amgueddfa Cymru'n creu penawdau yn UDA

COLUMBIA, SC.- Eight weeks into the exhibition, *Turner to Cézanne: masterpieces from the Davies collection, National Museum Wales*, the Columbia Museum of Art has surpassed 20,000 tickets for visitors and members. The show opened at the Columbia Museum of Art on March 6 -- the first time these works have been seen in the United States -- and closes in five weeks on Sunday, June 7. To date, more than 3,400 children in elementary, middle and high school from around the state have visited the exhibition for which the Museum has kept school group prices low to give students an opportunity to see this world-class exhibition.



Fine art collection of two prescient Welsh sisters set to dazzle small cities in US

One hundred years ago, the face of the world was changing drastically, with new industries, technology, and forms of transportation and communication emerging. How did two spinster sisters from a village in rural Wales respond to all of this social upheaval? Gifted with a vast inheritance from their industrialist grandfather, Gwendoline and Margaret Davies began to collect art – not just any art, but the most progressive French paintings of the day. Their legacy, bequeathed to National Museum Wales, now composes one of the finest Impressionist art collections in Europe. For the next year, 53 highlights will tour the US, opening March 6 at the Columbia Museum of Art in Columbia, S.C.

By Carol Strickland / Contributor to The Christian Science Monitor / March 6, 2009 edition

In six weeks, Everson Museum of Art will open its doors to the major traveling exhibition “Turner to Cezanne: Masterpieces From the Davies Collection, National Museum Wales.”

To accommodate visitors, Everson will extend its hours during the exhibition. The museum will be open noon to 6pm Tuesdays and Wednesdays; noon to 9pm Thursdays and Fridays; and 9am to 6pm Saturdays and Sundays. Private tours also can be scheduled. For more information, call 474-6064. Art lovers can purchase tickets now for the show, which runs Oct. 9 to Jan. 3, 2010. Sales are being accepted three ways: For online, go to the museum's Web site, www.everson.org. Click the "tickets" button on the home page. By phone with a credit card, call 474-6064 from 9am to 5pm. Monday through Friday. In person, visit the gift shop at the museum, 401 Harrison St. Tuesday through Sunday.

Columbia Museum of Art in Columbia, SC, Closes Blockbuster Exhibit With Record Attendance

Well, we just received a press release from the Columbia Museum of Art about their impressive attendance numbers posted during their presentation of the exhibit, *Turner to Cézanne: Masterpieces from the Davies Collection, National Museum Wales*, which was on view from March 6 through June 7 - 3 months. The release stated that the exhibition ended the first stop of its nationwide tour by attracting over 46,000 people to the Columbia Museum of Art for gallery tours, programs and events. That's a blockbuster in this state ... it's not like people were not hearing good things from the people who visited the exhibit, the Museum broke a single-day attendance record with 1,590 visitors on the last Friday of the exhibition, June 5, 2009. If anything the buzz about this exhibit was building.

Carolina Arts / Saturday, June 13th, 2009

Oklahoma City, OK - The Oklahoma City Museum of Art is pleased to announce the presentation of Turner to Cézanne: Masterpieces from the Davies Collection, National Museum Wales, opening June 25 through September 20, 2009.

A selection of 47 paintings - many of which have been rarely exhibited outside of Wales-and 11 important works on paper will reveal the cross-currents between artists and movements that propelled nineteenth-century painting from the romantic naturalism of J.M.W. Turner to the post-impressionism of Paul Cézanne. The works on view are drawn from the collection of Gwendoline and Margaret Davies, Welsh sisters who were among the most important art patrons in Europe at a key moment in the history of painting. The exhibition includes eight works by Turner, five by Jean-François Millet, three each by Camille Corot and Claude Monet, and two each by Cézanne, Edouard Manet, and Pierre-Auguste Renoir.

Art collection might inspire new generations


Hemingway wrote of how he often would walk to the Jardin du Luxembourg and then enter the Musée du Luxembourg where he would view the paintings of Paul Cézanne that were on display there ... It is possible that the paintings of Cézanne that are on display at the Oklahoma City Museum of Art will have a similar impact on an aspiring Oklahoma author. Those two works are part of a display from the National Museum of Wales in the United Kingdom that is titled “From Turner to Cézanne, Masterpieces from the Davies Collection” and will be at the Oklahoma City Museum of Art until Sept. 20 of this year. The Davies collection was amassed by two sisters, Gwendoline and Margaret Davies, who were heirs to an industrial fortune in Wales and began to purchase art in the early 20th Century. Their collection was later donated to the National Museum of Wales.

William F. O'Brien / The Edmond Sun

Meddai Alun Ffred Jones, Gweinidog Treftadaeth Llywodraeth y Cynulliad, 'Yn ogystal â gosod Cymru ar y map ar lwyfan ryngwladol, bydd y lluniau hyn yn ysbrydoli, yn diddanu ac yn addysgu miliynau o bobl at y dyfodol. Bydd yr arddangosfa gyffrous a grymus hon yn dal dychymyg y cyhoedd ac yn adrodd un o straeon gorau Cymru. Rwy'n gobeithio y bydd arddangos uchafbwyntiau ein casgliad cenedlaethol mor bell i ffwrdd yn cael effaith uniongyrchol ar Gymru yn ogystal â'r diwydiant twristiaeth.'

➤ Cymru a'r byd

Mae hyrwyddo diwylliant yng Nghymru a thu hwnt yn rhan annatod o holl waith Amgueddfa Cymru. Rydym yn ymrwymo i sicrhau bod pawb o'n cymdeithas yn cael cyfle i fwynhau ein hamgueddfeydd a'n casgliadau, ac yn ymroi i hybu ein diwylliant yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.



Ymrwymo i'r Gymraeg

➤ Mae Amgueddfa Cymru yn cynnig cyfleoedd gwych i helpu dysgwyr Cymraeg i hogi'u sgiliau iaith. Gall tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion ddefnyddio pecynnau adnoddau sydd ar gael am ddim ar y we i dywys myfyrwyr o amgylch ein hamgueddfeydd. Mae pecynnau Llwybrau Llafar a Perthyn ar gyfer Sain Ffagan, Gwau Geiriau ar gyfer Amgueddfa Wlân Cymru a pheccyn Camau Cymraeg ar gyfer Amgueddfa Lechi Cymru.

Yr un egwyddor sydd i'r pecynnau hyn: sef bod tiwtoriaid yn defnyddio ymarferion a gweithgareddau strwythuredig, wedi'u seilio ar wrthrychau ac arddangosfeydd yr amgueddfa, wrth fynd â myfyrwyr oddi amgylch. Mae'r pecynnau'n seiliedig ar gynllun unigryw ac arloesol sy'n cyfuno dulliau dysgu strwythuredig ac ymweliadau ag amgueddfeydd, gyda phwyslais ar annog y dysgwyr i ymgysylltu â'r hyn sydd o'u cwrdd a defnyddio'u Cymraeg.

Cafodd y pecynnau eu datblygu ar y cyd ag Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Llywodraeth y Cynulliad, ac maen nhw ar gael am ddim yn www.amgueddfacymru.ac.uk/addysg.

Mae Amgueddfa Cymru hefyd wedi datblygu digwyddiadau Cymraeg i deuluoedd. Er enghraifft, mae Amgueddfa Genedlaethol y Glannau wedi cydweithio â Menter Iaith Abertawe a Twf (sefydliad sy'n hybu Cymraeg o'r crud) i ddatblygu mentrau teuluol i ddysgwyr Cymraeg.

Yn ystod sesiynau misol Taith Iaith, mae aelod o staff Cymraeg yn cyflwyno un o themâu'r Amgueddfa, cyn cynnig cyfle i bawb gymdeithasu ac ymarfer geiriau newydd dros baned o de.

Mae sesiynau Canu Gyda Babi yn defnyddio hwiangerddi poblogaidd er mwyn helpu teuluoedd i ddysgu'r iaith. Daeth dros 60 o fabanod i'r sesiwn gyntaf, ac mae tua 25 o blant yn dal i fynychu pob sesiwn ar gyfartaledd. A chan fod rhieni'n cael taflen ganeuon i fynd adref gyda nhw, mae yna hen ddigon o gyfle i ganu'n Gymraeg!

Mae Amgueddfa Cymru’r un mor falch o’r hyn rydym yn ei wneud y tu hwnt i Gymru er mwyn hyrwyddo casgliadau, diwylliant a threftadaeth ein gwlad. Ein nod yw sicrhau bod Cymru’n cael ei hyrwyddo dramor fel cyrchfan i ymwelwyr diwylliannol a chelfyddydol – rhywbeth sy’n bwysicach nag erioed yn ystod y dirwasgiad.

Gŵyl Bywyd Gwerin Smithsonian 2009

➤ Amgueddfa Cymru oedd un o brif bartneriaid arddangosfa Cymru yng Ngŵyl Bywyd Gwerin Smithsonian yn Washington DC. Bu llawer o’n staff yn dangos eu doniau - fel hollti llechi - yn ogystal â chyfrannu at sgysiau a thrafodaethau di-ri. Fe wnaethom gydweithio â llawer o bobl eraill hefyd, yn enwedig ym meysydd hanes cymdeithasol, y diwydiannau a chrefftau creadigol, o adrodd straeon i gelf fideo a gosodiadau celf.



Cafwyd cyfle i ddangos bwrwm bywyd Cymru yng nghanol prifddinas yr Unol Daleithiau, a does dim dwywaith iddo helpu i godi proffil Cymru yn America. Bydd Amgueddfa Cymru yn cydweithio â Llywodraeth y Cynulliad i adeiladu ar y cysylltiadau a wnaed er mwyn denu mwy o fuddsoddiad ac ymwelwyr i Gymru yn y dyfodol. Rydym yn credu bod diwylliant a threftadaeth Cymru’n haeddu sylw ar lwyfan byd, ac yn awyddus i rannu’r neges hon i gynulleidfaoedd ehangach o lawer yn y dyfodol.

Turner i Cézanne

➤ Mae taith o’n casgliad o waith yr Argraffiadwyr o amgylch UDA yn ategu ein cysylltiad â’r Smithsonian. Mae’r arddangosfa *Turner i Cézanne: Campweithiau o Gasgliad Davies Amgueddfa Cymru* yn ymweld â phum canolfan wahanol dros ddeunaw mis. Agorodd yr arddangosfa yn Amgueddfa Gelf Columbia ym mis Mawrth 2009 cyn symud i Amgueddfa Gelf Oklahoma City, Amgueddfa Gelf Everson, Syracuse, Efrog Newydd, Oriel Gelf Corcoran yn Washington DC ac Amgueddfa Albuquerque yn New Mexico.

Mae’r arddangosfa’n cychwyn gyda chyflwyniad o waith JMW Turner, ac yn cynnig cipolwg diddorol a hynod bersonol o baentiadau Ffrengig – o’r Realyddion i’r Ôl-Argraffiadwyr – cyn cloi gydag adran fechan am gelf avant-garde Prydeinig cyn y Rhyfel Mawr.

Mae’r darluniau hyn yn perthyn i gymynroddion gwerthfawr gan Gwendoline a Margaret Davies, dwy chwaer o Sir Drefaldwyn. Roeddynt yn gasglwyr celf brwd, o gampweithiau’r Hen Feistri i arlunwyr cyfoes Prydain. Mae’r arddangosfa’n cynnwys 58 peintiad olew a dyfrlliwiau, rhai heb eu gweld yn UDA erioed o’r blaen.

➤ Eich amgueddfeydd cenedlaethol chi



Cewch wneud fwy nag ymweld yn unig – dewch yn rhan ohonynt.

Dewch i gymryd rhan

Ydych chi erioed wedi gwyllo’r ffilm *Night at the Museum* ac wedi meddwl – ‘hoffwn i weld beth sy’n digwydd tu ôl i’r llenni’? Os felly, beth am wirfoddoli yn un o’n hamgueddfeydd ni? Mae pedair ffordd wahanol o gymryd rhan:

Gwirfoddoli – i oedolion dros 18 oed. Gwaith tymor byr neu hirdymor ar gael.

Profiad Gwaith – i ddisgyblion ysgol 15-18 oed.

Lleoliadau Gwaith a Swyddi Preswyl – i fyfyrwyr addysg uwch 18 oed a throsodd. Gall lleoliadau fod yn rhan o gwrs astudio ffurfiol.

Prentisiaethau – rydym bob amser yn chwilio am nawdd i ehangu’r cynllun hwn fel y gallwn dderbyn mwy o brentisiaid crefftau a sgiliau traddodiadol i ddysgu wrth eu gwaith.

Byddwch yn dysgu sgiliau newydd, rhannu gwybodaeth arbenigol, ehangu’ch diddordeb mewn maes arbennig, cwrdd â phobl newydd ac ennill profiad gwerthfawr mewn awyrgylch hwyliog. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Siân Layton, Cydlynnydd Gwirfoddolwyr trwy ebostio siân.layton@amgueddfacymru.ac.uk neu ffonio (029) 20573393.

Dweud eich dweud

Hoffem glywed gennych. Rydym eisiau sicrhau bod pobl o bob cwr o Gymru’n cael cyfle i ddweud eu dweud a chymryd rhan trwy broses ymgynghori. Os hoffech gyfrannu at ein proses ymgynghori, cysylltwch ag Elaine Cabuts, Ysgrifennydd yr Amgueddfa trwy ebostio elaine.cabuts@amgueddfacymru.ac.uk neu ffonio (029) 20573204.

Cefnogwch ni

Os gallwch chi gefnogi unrhyw broiect, rhaglen neu ddigwyddiad yn unrhyw un o’n hamgueddfeydd, cysylltwch â’r Adran Ddatblygu trwy ebostio datblygu@amgueddfacymru.ac.uk neu ffonio (029) 2057 3184. Bydd eich rhodd chi yn gwneud byd o wahaniaeth i’n gwaith ni.

Hoffai Amgueddfa Cymru ddiolch o galon i’n cefnogwyr canlynol.

Noddwyr Corfforaethol
Corus
Legal & General
Cymdeithas Adeiladu’r
Principality
Western Power Distribution

Pawb a gyfrannodd at Apêl yr Amgueddfa Gelf

Pawb sydd wedi noddi seddi yn Sefydliad y Gweithwyr Oakdale yn Sain Ffagan

Pawb a adawodd gymynrodd i Amgueddfa Cymru

Ymddiriedolaethau, sefydliadau a chefnogwyr eraill
Sefydliad Clore Duffield
Ymddiriedolaeth Elusennol Colwinston
Corus
Undeb Community
Ymddiriedolaeth Derek Williams
Esmée Fairbairn
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
Cyfeillion Amgueddfa Cymru
Setliad Elusennol G C Gibson
Cronfa Dreftadaeth y Loteri

Prif Noddwr
Y Gwir Anrhydeddus Iarll Plymouth

Noddwyr Oes
1 Noddwr Oes Dienw
Dr Margaret Berwyn Jones
Enid Child
Nicholas a Diana De Courcy-Ireland
Dr Margaret Elmes
Marion Evans
Sigi a Wynford Evans
Mr a Mrs R. A. Forster
Nigel a Jane Gibbs

Christopher Gridley
Jo Hirst
Anita Johansson
Capten Syr Norman Lloyd Edwards KCVO
Malcolm a Monica Porter
R. Paul Russell
Anna Southall
Roger a Rhian Thomas

Noddwyr a Rhoddwyr Unigol

Pum Noddwr dienw
Un rhoddwr dienw
Mrs E. M. Austin
Gordon Scott Bagnall
Lawrence Banks
Leslie Beckett
Peter Bennett-Jones
Dafydd Bowen Lewis
Mrs D. H. R. Brackstone
William Burgess
David a Carole Burnett
Dan Clayton-JonesYsw.
Dr Sarah Cockbill
Mrs Valerie Courage
Robert a Rhian Croydon
Margaret Davies
Walter a Shael Dickie
Eleri Ebenezer
Robert Edward
Gerard ac Elisabeth Elias
Mrs Wynne Evans
Mrs Christine Eynon
Roger a Kathy Farrance
John a Genevieve Foster
Thomas
Pearl E. Gayther
Jonathan Gray
Christopher Gridley
Michael a Jill Griffith
Peter a Lynne Groom
Syr Richard Hanbury-Tenison KCVO
Alan a Judith Hart
G. Wyn Howells MBE
Afanwen James
Jane Jenkins
Anne a Hywel Jones
Terry Jones
Ian a Julia Kelsall
Miss Pat Kernick
Mr Gerry Long MBE a

Mrs Pat Long
L. Hefin Looker
Paul a Lynne Loveluck
Julian Mitchell
John a Doreen Morgan
Peter Morgan
Richard a Rose Morgan
Peter a Maria Neumark
Mr John Phillips
Michael a Sian Phipps
Mathew a Lucy Prichard
Anthony a Mary Pugh
Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Rhaglan
Bernard a Valerie Rees
Robert ac Elaina Powell
Dr Colin J. Richards a Mrs Ann Richards
John Roberts
Mike a Mary Salter
Richard a Gaynor Smart
Dr P. M. Smith
John Sorotos
Geraint Talfan Davies
Bev Thomas MBE
Ken a Fran Truman
David Vaughan CBE CF
David a Christine Vokes
Haydn a Dorothy Walters
Dr Jane Watkeys
Mrs Meriel Watkins
John a Hilary Weber
Richard Weston a Linda Prosper
Mr a Mrs I. T. Wigley
Dr D. M. J. a Dr M. V. Williams
Ruth a Gareth Williams
Dr W. B. Willott CB
Is-iarll Windsor
Derek a Joan Woolley

Er cof am Noddwyr a fu farw yn ystod y flwyddyn
Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Rees QC